Adroddiad Blynyddol Cyngor Cymuned Llandderfel 2021/22.

Cyflwyniad

Dibyn yr adroddiad hwn yw cyflwyno gwybodaeth am weithgareddau Cyngor Cymuned Llanycil yn ystod 2021/22. Mae'n cynnwys amlinelliad byr o strwythur y Cyngor, trosolwg o weithgareddau'r Cyngor dros y flwyddyn, a chrynodeb ariannol. Mae'r adroddiad yn esbonio sut mae'r Cyngor wedi cyfrannu at les yr ardal dros y flwyddyn ddiwethaf ac edrych ymlaen ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Cefndir

Plwyf yng nghantref Penllyn yw Llandderfel. Yn 1985 ffurfiwyd y Cyngor Cymuned presennol wrth gyfuno hen blwyf Llanfor a hen blwyf Llandderfel. Yn ddaearyddol y mae'n un o'r plwyfi mwyaf yng Nghymru ag arwynebedd o bron ugain mil hectar sy'n ymestyn o ffiniau Cyngor Bwrdeistref Conwy yn y gogledd i Sir Ddinbych yn y gogledd a'r dwyrain ac at derfyn Powys yn y de ddwyrain. Poblogaeth denau a gwasgaredig sydd i'r gymuned wledig hon yn cynnwys pentrefi Llandderfel, Glanrafon, Llanfor, Frongoch a Sarnau. Yng nghyfrifiad 2011 yr oedd y boblogaeth yn 1,511 a thua 71% o'r rhain yn medru siarad Cymraeg. Rhed afon Dyfrdwy drwy ganol y plwyf a ffurfia afonydd Celyn a Thryweryn ran helaeth o'r ffiniau gorllewinol a deheuol. Rhed afon Celyn i'r llyn a gronnwyd yn y chwedegau i gyflenwi dinas Lerpwl.

Cynghorwyr a Staff.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 13 aelod sydd wedi eu rhannu dros ddwy ward, fel a ganlyn:

Ward Llanybetws.

Cadeiryddes: Rita Jones, 13 Tan y Foel, Llanfor.
Is-gadeirydd: Maldwyn P. Jones, Henblas, Llandderfel.
Gwenda M. Evans, Tŷ Isa, Glanrafon.
Gwenda Morris, Plas Isa, Llandderfel
Dewi G. Pritchard, Hengwm, Bethel.
Iolo V. Evans, Bryn Ffynnon, Glanrafon.
Gwynedd Jones, Gelli, Glanrafon.
Meilir Jones, Bryn Derw, Glanrafon.

Ward Llanfor

Gary Thomas, Pencefn, Sarnau.
Eilir Rowlands, Hendre, Cefnddwysarn.
Bethan Thomas, Gwynant, Frongoch.
Eifion W. Davies, Cynlas, Cefnddwysarn.
Alwyn Jones, Awel y Gwirod, Frongoch.

Clerc: Bethan Jones, Hafod y Bryn, Cwmtirmynach, Y Bala.
Ffon: 01678520632 E-bost: hafodbryn632@gmail.com

Cyfarfodydd.

Cynhelir cyfarfodydd misol y Cyngor ar y nos Fawrth cyntaf o'r mis, ac eithrio Ionawr, Ebrill ac Awst lle ni chynhelir cyfarfod. Mae'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn neuaddau Bro Derfel, Sarnau a Mynach am 7.30y.h. Cynhelir y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mai. O dan amgylchiadau parhaus Covid-19 ac er mwyn lles y cynghorwyr cynhaliwyd cyfarfodydd hanner cyntaf y flwyddyn dros Zoom. Doedd hyn ddim yn ddelfrydol oherwydd anawsterau cysylltiad rhyngrwyd sâl iawn yr ardal.
Yn ystod y flwyddyn gwnaed trefniadau fel bod y Cyngor yn gyfarfod gofynion 'Adran 47 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021' i ddarparu ar gyfer presenoldeb aml-leoliad mewn cyfarfodydd y Cyngor. Mae bwriad buddsoddi mewn gliniadur newydd ac offer pwrpasol yn 2022-23 i wella ansawdd y gwasanaeth.

Cyfrifon i ddiwedd Mawrth 2022:

Gweddill a ddygwyd ymlaen o 1/4/2021	£15,095.03*
Derbyniadau	+£14,017.06**
Taliadau	-£17,546.02***
Gweddill 31/3/22	**£11,566.07**

*Yn cynnwys y Cyfrif Cyfredol a'r Cyfrif Cadw
**Yn cynnwys £3k o grant gan Gronfa Melinau Gwynt Braich Ddu i osod lloches bws newydd yn Frongoch.
*** Yn cynnwys gwariant am y lloches newydd i Frongoch o £6587.58.

Praesept Blynyddol: £9,000
Nifer o aelodau wnaeth hawlio'r lwfans blynyddol o £150 - dim.
Archwilwyr Mewnol: Cyngor Gwynedd Archwilwyr Allanol: Archwilio Cymru.
Canlyniad yr Archwiliad Blynyddol: heb ei dderbyn yn nol eto.

Prif amcanion y Cyngor

1) Rheoli Eiddo'r Cyngor – 3 mynwent, 7 lloches bws, 2 gae chwarae a'r offer a chofgolofn.
2) Gweinyddiaeth a Llywodraethant.
3) Rhoddion Ariannol i Fudiadau Gwirfoddol.
4) Cynrychioli ac Ymgysylltu a'r Gymuned - cynghorwyr yn cynrychioli'r Cyngor ar bwyllgorau'r neuaddau lleol, Corff Llywodraethol Ffederasiwn Cysgod y Foel a chyfarfodydd lleol Yr Heddlu, ac yn adrodd unrhyw adborth yn nol i'r Cyngor. Cynrychiolaeth mewn gweithgareddau a digwyddiadau lleol, er nad oedd gymaint o hyn wedi bod yn bosib eleni.
6) Partneriaeth a Chyd Weithio - Partneriaeth Penllyn a Chanolfan Henblas, Bala a gyda materion unigol gyda'r Cynghorau Cymuned a Thref Penllyn e.e. materion traffig.
7) Ceisiadau Cynllunio.
8) Gwella a Chefnogi ein Cymuned.

Gweithgareddau.

1) Yn dilyn blynyddoedd o drafodaethau a gwrthwynebiad gan y Cyngor Cymuned bu i Gyngor Gwynedd ail ystyried eu penderfyniad i godi tal ar y Cynghorau Cymuned am lenwi'r biniau halen.
2) Gwaith clirio ym mynwent Frongoch i greu man claddu newydd a thacluso'r fynwent yn gyffredinol. Cychwyn ar y gwaith o drwsio ac ail beintio giât a railings mynwent Llandderfel a giât mynwent Frongoch, gwaith i'w gwblhau yn 2022/23.
3) Dosbarthu posteri i annog trigolion lleol i godi eu baw cŵn yn y pentrefi lleol.
4) Mynychu cyfarfodydd gyda Gwasanaethau Cefnogi Cymunedau Cyngor Gwynedd i greu Cynllun Ardal Phenllyn a Bala fel rhan o'u prosiect 'Ardal Ni 2035'.
5) Cynghorwyr wedi cefnogi'r trigolion lleol yn ystod y pandemig.
6) Prynu a gosod lloches bws newydd ym mhentref Frongoch. Sicrhau grantiau tuag at y gwaith, £3k wedi ei dderbyn yn barod a £500 i ddod yn y flwyddyn ariannol nesaf.
7) Cefnogi mudiadau ac elusennau lleol drwy gyfraniadau ariannol gan nad oedd posib iddynt godi arian i'w cynnal drwy'r gweithgareddau arferol. Cyfrannwyd £2,950 eleni.
8) Cefnogi Cylch Meithrin Maesywaen drwy gytuno mewn cydweithrediad a Phwyllgor Rheoli'r i ail leoli parc chwarae fel rhan o gynllun y Cylch i ail leoli i dir yr ysgol ym mhentref Frongoch. Hefyd rhoddwyd cyfraniad ariannol i'r Cylch i'w cynhorthwy gyda'r costau o sefydlu'r safle newydd.
9) Cefnogi'r ysgolion lleol drwy gyfraniadau ariannol i wella eu cyfleusterau ac yn benodol yn yr ysgol uwchradd i gefnogi cynlluniau i wella iechyd meddwl y plant a oedd wedi cael ei effeithio gan y pandemig.
10) Cydweithio gyda'r trigolion lleol a'r cyngor sir i sicrhau fod materion lleol yn cael sylw, e.e. cyflwr y ffyrdd gwledig, goryrru yng Nghwmtirmynach a phentref Llandderfel.
11) Clerc yn mynychu hyfforddiant er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn dilyn gofynion newydd y 'Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021' e.e. crynodeb o gyfarfodydd, 'model protocol ar gyfer datrys cwynion'.

12) Cydweithio gyda Chyngor Tref Y Bala i dynnu sylw'r Asiantaeth Cefnffyrdd i bryderon y cynghorau am y goryrru ar yr A494 a chais am gyfyngiadau cyflymder.
13) Cydweithio gyda Chynghorau eraill ynglŷn â materion fel rheolaeth o'r farchnad dai lleol, polisi iaith ayyb.
14) Cynghorwyr yn mynychu cyfarfodydd Partneriaeth Penllyn a Dŵr Cymru.
15) Cytuno i roi cyfraniad ariannol i Neuadd Bro Derfel gyda'i prosiect i ail agor toiledau cyhoeddus pentref Llandderfel, mi fydd y gwaith wedi cael ei gwbwlhau yn ystod 2022.

Cynlluniau ac amcanion ar gyfer 2022/23.
1) Parhau i gydweithio gyda'r trigolion lleol a'r cyngor sir i sicrhau fod materion lleol yn cael sylw.
2) Cynnal a chadw eiddo'r Cyngor.
3) Parhau i gefnogi mudiadau lleol drwy roddion ariannol.
4) Parhau i gydweithio gyda'r Gwasanaethau Cefnogi Cymunedau Cyngor Gwynedd i ddatblygu'r Cynllun Ardal Phenllyn a Bala fel rhan o'u prosiect 'Ardal Ni 2035'.
5) Buddsoddi mewn gliniadur newydd ac offer pwrpasol i wella ansawdd y ddarpariaeth aml-leoliad mewn cyfarfodydd y Cyngor.
6) Parhau gyda'r ymgyrch i gael cyfyngiad cyflymder 40 m.y.a. ar yr A494.
7) Paratoi Cynllun Hyfforddiant ar gyfer y Cyngor.
8) Cydweithio gydag adran Llwybrau Cyhoeddus Cyngor Gwynedd i gael grant tuag y gost o wneud archwiliad o'r llwybrau cyhoeddus.
9) Gorffen y gwaith cynnal a chadw'r mynwentydd a chael arwydd newydd i fynwent Llandderfel.
10) Ail gychwyn y gwaith o gael lloches bws i bentref Llanfor.